# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

# CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 CHWEFROR 2015 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu); a Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Amser dechrau:** 9:30 am
**Amser gorffen:** 3:00 pm

## 1. Datganiadau o fuddiant.

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y cyflwynwyd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ger bron y Senedd, a bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, *Grym i Bobl Leol*, fel rhan o'i rhaglen diwygio Llywodraeth Leol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2014

6.1 **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, yn amodol ar fân ddiwygiad i baragraff 6.2 fel ei fod yn darllen: **Cytunodd** y Comisiwn ar yr Adroddiad â mân newidiadau i Atodiad A a map B, a chaiff paragraff 5.6 ei ymestyn i ychwanegu manylion am y gofyniad i'r Comisiwn gadw trefniadau cynrychiolaeth gymunedol leol ar lefel sy'n gyson â'r arfer blaenorol.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad dyddiedig 2 Chwefror.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

**Mater 1** **(Strategaeth TG)** Rhoddwyd diweddariad llafar gan y Swyddog Arolygu. Mae'r Comisiwn wedi archebu meddalwedd newydd, sy'n cynnwys fersiwn gyfredol o MapInfo ac Adobe. Hefyd, mae holl

gyfrifiaduron y Comisiwn i fod i gael eu diweddaru i Windows 7 gan Atos. Mynegodd y Comisiwn bryder ynghylch cyflenwi'r feddalwedd a thalu Atos cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

**Mater 3** **(Holiadur Ôl-arolwg Sir Benfro)** I'w ystyried yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mawrth.

**Mater 7** **(Arolygon Cymunedol)** Mae Cyfarwyddiadau Desg ar gyfer Arolygon Cymunedol yn cael eu profi gan yr arolwg presennol o RCT a Sir y Fflint.

**Mater 16** **(Dogfen Fframwaith)** Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y Ddogfen Fframwaith.

**Mater 22** **(Penodi Comisiynwyr)** Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi hysbyseb i benodi Comisiynwyr newydd ym mis Mawrth.

## 5. Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig Ionawr 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr, ar y Bil a'i bapurau ategol, fel y'u cyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol. Crybwyllwyd y gofynnwyd i'r Comisiwn gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol erbyn 27 Chwefror, a mynychu cyfarfod y pwyllgor ar 12 Mawrth i ymateb i gwestiynau'r pwyllgor.

5.1. Ystyriodd y Comisiwn y Bil, yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r pwyllgor, a baratowyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**Penderfynwyd**:-

1. cymeradwyo egwyddorion yr ymateb drafft a diwygio'r geiriad fel y cytunwyd yn y cyfarfod ac, fel y caiff ei ddatblygu ymhellach, caiff y fersiwn terfynol ei gytuno gan y Comisiynwyr cyn ei anfon at y pwyllgor; a
2. rhoi gwybod i'r Is-adran Llywodraeth Leol am ymateb y Comisiwn.

5.2. **Cam gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr.**

## 6. Is-bwyllgor y Gweithlu

6.2 **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod yr is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2016, fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw.

## 7. Cynllunio Arolygon Cychwynnol: Polisi ac Arfer

7.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 27 Tachwedd gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd yr Adroddiad a'r newidiadau arfaethedig wedi'u seilio ar y ddealltwriaeth gyfredol o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol, sef y gall deuddeg Prif Gyngor newydd gael eu creu gan Fil Llywodraeth Leol yn y dyfodol, a

gyflwynir yn 2016. Byddai naw cyngor newydd yn cael eu creu trwy uno dwy neu fwy o ardaloedd awdurdodau lleol, a byddai tri chyngor newydd yn cael eu ffurfio o ardaloedd awdurdodau lleol presennol.

7.2. Roedd yn Adroddiad yn mynd i'r afael â newidiadau i'r amserlen a'r trefniadau ar gyfer cynnal arolygon o ganlyniad i ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru), pan gaiff ei ddeddfu. Byddai elfen newydd i'r rhaglen arolygu yn cael ei chyflwyno, o'r enw "Arolygon Cychwynnol". Byddai cyflwyno'r cam newydd hwn i'r gwaith yn mynnu newidiadau i ddogfen **Polisi ac Arfer 2013** bresennol. Byddai angen ymgynghori ar y cyfryw newidiadau a chytuno arnynt ymhell cyn y dyddiad dechrau arfaethedig ar gyfer y rhaglen uno. Rhoddwyd amlinelliad o'r prif newidiadau y byddai angen eu gwneud, y gall rhai ohonynt dim ond cael eu gwneud ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu a'i roi ar waith.

7.3. Ar ôl ystyried yr Adroddiad a'i Atodiadau, **penderfynwyd** fel a ganlyn:-

7.4. 1. Cymeradwyo'r Adroddiad a'i Atodiadau drafft, a mabwysiadu'r newidiadau awgrymedig i fformat ***"Arolygon Cychwynnol: Papur Polisi ac Arfer"*** arfaethedig, a'r weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer Arolygon Cychwynnol (Atodiad A, paragraffau 1 a 2) ac, yn benodol, y cynigion canlynol:

(a) Nifer yr Aelodau: Paragraffau 1.6, 3.1, 5.4, 5.6 a 5.7 i'w cwblhau ar ôl cael penderfyniad y Gweinidog. Rhoddir rhagor o ystyriaeth i amrywiant i nifer yr aelodau ar gyfer cynghorau unigol, yn amodol ar ddarparu tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau unrhyw eithriad i'r nifer awdurdodedig a, beth bynnag, ni fyddai'r amrywiant a ystyrir yn fwy na +/-10% o'r nifer awdurdodedig;
(b) Amserlen ar gyfer cyflwyno Argymhellion ar gyfer yr Arolygon Cychwynnol: Paragraff 4.2 i'w gwblhau ar ôl cael penderfyniad y Gweinidog;
(c) Ymgyngoreion gorfodol: Paragraff 4.6 i'w gadarnhau gan y ddeddfwriaeth derfynol;
(d) Cynlluniau Lleol: Bydd paragraff 4.11 yn darparu i Brif Siroedd newydd gynnig cynlluniau ar gyfer trefniadau etholiadol i'r Comisiwn wrth gynnal yr Arolygon Cychwynnol;
(e) Ymgynghori: Bydd paragraffau 4.12 i 4.14 yn cynnwys darpariaethau i hwyluso trefniadau effeithlon i gyfarfod â'r awdurdodau lleol presennol.

2. Ychwanegu swydd newydd Rheolwr Arolygu at strwythur staffio'r Comisiwn, a bydd y penodiad yn cyd-fynd â dechrau'r Arolwg Seneddol ac yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i weithredu.

3. Gofyn i'r Ysgrifenyddiaeth baratoi papur polisi ac arfer arall maes o law, fel arweiniad ar gynnal arolygon etholiadol i'r tri Phrif Gyngor newydd na fyddai'n cael eu huno.

**Cam gweithredu: Prif Weithredwr/Dirprwy Brif Weithredwr.**

**8. Holiadur Safonau'r Iaith Gymraeg**

**9.**

9.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 2 Chwefror 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes, sy'n cynnwys yr ymateb i'r holiadur a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, a gytunwyd gan y Comisiwn ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi estyniad ar gyfer cyflwyno ymateb y Comisiwn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

9.2. **Penderfynwyd** cadarnhau'r ymateb i'r holiadur ac i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Cam gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

**10. Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Gorchymyn Anghymhwyso Drafft**

10.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 21 Ionawr 2015 gan y Prif Weithredwr, ar Bapur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru am Orchymyn diwygiedig. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn diddymu Gorchymyn 2010 ac yn cyflwyno swyddi diwygiedig a ddelir gan unigolion a fyddai'n eu hanghymhwyso rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r cyfryw swyddi'n cynnwys Prif Weithredwr ac Aelodau'r Comisiwn yn ystod eu cyfnodau unigol yn y swydd. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymateb drafft.

10.2. **Penderfynwyd** cytuno â'r newidiadau arfaethedig a hysbysu Llywodraeth Cymru yn unol â hynny.

10.3. **Cam gweithredu: Prif Weithredwr**

**11. Cyfraith Etholiadol**

11.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 29 Ionawr 2015 gan y Prif Weithredwr ar *Cyfraith Etholiadol: Papur Ymgynghori ar y Cyd*, sy'n adolygu'r gyfraith sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir etholiadau a refferenda, a gyhoeddwyd gan Gomisiynau'r Gyfraith. Roedd ei gynigion yn cynnwys y dylai'r Comisiynau Ffiniau Llywodraeth Leol priodol benderfynu ar apeliadau sy'n deillio o arolygu ardaloedd pleidleisio. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod ei fod wedi cael cyngor ar natur ac amlder apeliadau gan y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru, a chynghorodd fod penderfynu ar y cyfryw apeliadau y tu allan i swyddogaeth y Comisiwn.

11.2. **Penderfynwyd** derbyn cyngor y Prif Weithredwr a'i awdurdodi i roi gwybod i Gomisiynau'r Gyfraith yn unol â hynny.

11.3. **Cam gweithredu: Prif Weithredwr**

**12. Contractau caffael**

12.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 2 Chwefror 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes, ar gamau presennol contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, a'r camau gweithredu disgwyliedig dros yr ychydig fisoedd nesaf.

12.2. **Penderfynwyd** nodi a chytuno â'r Adroddiad.

12.3. **Cam gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**

## 13. Rheoli Risg

13.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 20 Ionawr 2014 gan y Rheolwr Cyllid.

13.2. **Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad a'r Gofrestr Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2014-15, yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Risg CR7 (Diwygio Llywodraeth Leol: rhag ofn na chaiff y ddeddfwriaeth ei rhoi ar waith yn unol â'r disgwyl) byddai'r sgôr risg weddilliol ar gyfer effaith yn cael ei chynyddu i 4, gan arwain at sgôr risg weddilliol gyffredinol o 20;
- Caiff risg CR7 ei diwygio ymhellach ar ganlyniad risg, i ddatgan sut y gall Cyfarwyddiadau gohiriedig gan y Gweinidog gael effaith niweidiol ar allu'r Comisiwn i recriwtio a hyfforddiant staff yn effeithiol oddi mewn i amserlenni priodol ar gyfer y rhaglen arolygu.

**Cam gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 14. Adroddiad Cyllidol

14.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 31 Ionawr 2015 gan y Rheolwr Cyllid. Nododd y Comisiwn yr Adroddiad a'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â'r tanwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn, a'r gofynion a amlygwyd ar gyfer yr angen i uwchraddio meddalwedd. Mynegwyd, o ystyried y tanwariant disgwyliedig, gellid ildio swm pellach o £30,000 i'r Is-adran Noddi yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Ystyriwyd ymhellach ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r Comisiwn yn cael yr anfonebau ar gyfer caffael meddalwedd gan Atos cyn 1 Ebrill 2015. Byddai angen cario'r cyllid angenrheidiol ymlaen i 2015-16, a byddai angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.

14.2. **Penderfynwyd:-**

1. cymeradwyo'r Adroddiad;
2. awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnig £30,000 arall i'r Is-adran Noddi, o ystyried y tanwariant presennol; ac
3. awdurdodi'r Prif Weithredwr i ofyn am ganiatâd gan yr Is-adran Noddi i gario digon o gyllid ymlaen i dalu cost uwchraddio meddalwedd ar gyfer gwariant yn 2015/16.

**Cam gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 15. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

15.1 Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 30 Ionawr 2014 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn a chytunwyd ar y pwyntiau canlynol:

**15.2 Arolwg Cymunedol Sir y Fflint** – Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cynigion Drafft ar 28 Ionawr 2015. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn derbyn cynrychiolaethau hyd at 22 Ebrill 2015, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

**15.3** **Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf** – Derbyniodd y Comisiwn yr arolwg cymunedol gan y cyngor ar 5 Ionawr 2015. Diwedd y cyfnod ar gyfer cynrychiolaethau yw 16 Chwefror 2015.

**15.4** **Arolwg Cymunedol Caerdydd** – Yn aros i'r cynigion terfynol gael eu cyflwyno i'r Comisiwn. Caiff y cynigion terfynol eu hystyried gan aelodau'r cyngor yn y cyfarfod ym mis Chwefror.

**15.5** **Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin** - Cyhoeddodd y Cyngor y Cynigion Drafft ar 2 Chwefror 2015. Daw'r cyfnod ar gyfer derbyn cynrychiolaethau ar y Cynigion Drafft i ben ar 3 Ebrill 2015. **Cytunwyd** y caiff Mr Ceri Stradling ei benodi'n Gomisiynydd Arweiniol ar gyfer yr arolwg hwn.

**15.6** **Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg –** Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu at y Comisiwn i ofyn am i'r arolwg ddechrau ym mis Hydref 2015. Caiff cyfarfod ei drefnu ar gyfer swyddogion.

**15.7** **Cam gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 16. Adroddiad y Ddraig Werdd

16.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 10 Chwefror 2015 gan y Cynorthwyydd Swyddfa ar yr Adroddiad Archwilio, dyddiedig 14 Ionawr 2015, ar Safon Amgylcheddol y Comisiwn yn 2014/15.

16.2. Adroddwyd bod y Comisiwn wedi llwyddo i gynnal Safon Lefel 2, a ystyrir yn briodol ar gyfer maint a swyddogaethau'r Comisiwn.

16.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

## 17. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru/Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

17.1. Ystyriodd yr Adroddiad dyddiedig 2 Chwefror 2015 gan y Prif Weithredwr ar newidiadau arfaethedig Swyddfa'r Cabinet i'r ddogfen ddrafft bresennol. Gofynnodd Swyddfa'r Cabinet am newidiadau i'r ddarpariaeth yn y memorandwm drafft yn ymwneud â'r cyllid a ddarperir i fodloni gofynion arferol Comisiwn Ffiniau i Gymru ac unrhyw amrywiadau. Crybwyllwyd gan oedd y diwygiad yn adlewyrchu'r sefyllfa sy'n codi, lle y byddai angen cyllid ychwanegol sylweddol i fodloni'r gwaith ychwanegol yn ystod cyfnod arolygu. Cynigiodd Mr David Powell eiriad gwahanol.

17.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **chytuno** arno, a chytunwyd y dylai ymateb ar sail y cynnig amgen gael ei anfon at Gomisiynwyr y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Swyddfa'r Cabinet i'w ystyried.

## 18. Cam gweithredu: Prif Weithredwr

## 19. Calendr Digwyddiadau 2015

19.1. **Nodwyd** yr Adroddiad.

19.2. Ystyriwyd y posibilrwydd o newid dyddiadau'r cyfarfodydd misol fel eu bod yn hwyrach yn y mis. **Nodwyd** hyn, ond ni wnaed unrhyw newidiadau i amserlen y cyfarfodydd ar gyfer 2015.

## 20. Unrhyw fusnes perthnasol arall

20.1. Ystyriwyd cynnig Gweinidogion Cymru i benodi Comisiynwyr ychwanegol, a chamau gweithredu posibl i annog unigolion i wneud cais. Gallai'r Comisiwn helpu trwy gyhoeddi gwybodaeth mewn newyddlen, y mae drafft ohoni wedi'i baratoi.

20.2. **Cytunodd** y Comisiwn â'r newyddlen arfaethedig, â gosodiad a geiriad diwygiedig.

## 21. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10 Mawrth 2015.